Afasic CYMRU
voice for life
llais ar gyfer bywyd
Charity No. 1045617

Helpu eich plentyn oedran ysgol uwchradd i ddatblygu ei eirfa

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Efallai y bydd yn eich synnu bod y medrau sydd eu hangen i wrando, deall a siarad, sydd fel arfer yn dod yn amlwg yn ystod plentyndod cynnar, yn parhau i gael eu gloywi a'u datblygu yn ystod blynyddoedd llencyndod yn yr ysgol uwchradd.

Mae geirfa yn un rhan allweddol o ddatblygiad trwy gydol a thu hwnt i lencyndod. Mae geirfa yn meddwl y cyflenwad o eiriau rydych chi'n ei wybod, yn ei ddeall ac yn ei ddefnyddio. Credir bod plentyn yn yr ysgol uwchradd yn dysgu tua 7-10 gair y dydd!

Mae cefnogi person ifanc i ddatblygu geirfa o gymorth gyda:

- ✓ Deall lleferydd, cysyniadau ac emosiynau
- ✓ Deall yr hyn sy'n cael ei ddarllen
- ✓ Ymuno mewn sgyrsiau
- ✓ Datblygu meddwl a dysgu

Os ydych chi'n pryderu am wrando, deall a/neu siarad eich plentyn, beth bynnag yw ei oedran, ewch i gael cyngor gan therapydd iaith a lleferydd cymwysedig.

Darllenwch y daflen hon i gael syniadau cyffredinol ynghylch sut y gallwch helpu eich plentyn i ddatblygu ei fedrau geiriol. Addaswch yr awgrymiadau i gyd-fynd ag oedran a chyfnod datblygiad eich plentyn.

Dysgu geiriau newydd

Mae gwybodaeth am eiriau'n cynyddu'n aruthrol yn ystod llencyndod.

Yn ystod yr adeg hon mae ystyr geiriau sydd eisoes yn rhan o'u geirfa yn dyfnhau ac mae dealltwriaeth gynyddol y gall geiriau gael mwy nag un ystyr, er enghraifft: testun, blas, disglair, melys, pen.

Y mae hefyd gynnydd graddol mewn gwybodaeth o'r cysylltiad rhwng geiriau, er enghraifft: 'cerddoriaeth' a 'cerddor'.

Gall y geiriau y mae plant yn taro arnynt yn yr ysgol uwchradd fel rhan o gyfarwyddyd a thrafodaethau fod yn fwy haniaethol ac efallai'n anghyfarwydd. Fel arfer, mae geiriau technegol sy'n gysylltiedig â phwnc ysgol arbennig yn cael eu dysgu ond mae geiriau eraill a ddefnyddir gan bob athro 'ar draws y cwricwlwm'. Anaml y mae geiriau o'r fath yn cael eu dysgu ond gallant weithio'n groes i'r graen fel rhwystrau i ddealltwriaeth.

Mae enghreifftiau o'r geiriau 'ar draws y cwricwlwm' cyffredin hyn yn cynnwys: cyflwyno, amcangyfrif, mesur, prisio gwerth, addasu, trafod, crynhoi, arsylwi, sylwi, credu, casglu, o ganlyniad, disgwyliadau, amheuaeth.

Sut mae geiriau'n cael eu dysgu

Mae dysgu geiriau newydd yn broses raddol. Mae perthynas agos rhwng datblygu geirfa a darllen. Yn nodweddiadol, disgwylir i blant hŷn ddysgu mwy a mwy o eiriau *trwy* ddarllen ac ysgrifennu. Mae plant sydd â geirfa eang yn deall mwy o'r hyn maent yn ei glywed a'i ddarllen.

Gellir dysgu geiriau trwy:

Gyfarwyddyd uniongyrchol

Dyma ble mae gair neu syniad yn cael ei ddiffinio a'i egluro. Gall geiriadur hefyd ddysgu i gadarnhau ystyron newydd.

Cyd-destun

Dyma ble mae ystyr gair yn cael ei ddyfalu neu ei weithio allan o gliwiau yn y frawddeg a'r geiriau/ystyron o'i amgylch. Gelwir y medr hwn yn gasgliad ac mae'n fedr allweddol wrth ddilyn sgwrs a deall yr hyn rydyn ni'n ei ddarllen.

Cliwiau yn y gair

Gall hyn gael ei ddefnyddio ochr yn ochr â chyd-destun. Dyma ble mae rhannau o eiriau'n cael eu cyfuno i wneud geiriau newydd, er enghraifft: pen-blwydd, amserlen. Mae hyn yn cynnws gwybodaeth am rannau o eiriau, megis '-adwy' a 'di-'. Mae hefyd yn cynnwys cymharu geiriau cyfarwydd sy'n swnio neu'n edrych yn debyg, er enghraifft: diofal, diflino, dibwrpas.



Ffyrdd y gallwch chi helpu

a. Cymhellwch chwilfrydedd am eiriau, gan sylwi ar eiriau newydd yn y papur newydd, mewn llyfrau, wrth wylio rhaglen deledu ac edrych beth yw eu hystyr. Siaradwch am ystyr gair newydd a chwilio amdano gyda'ch gilydd mewn geiriadur ar-lein.

b. Gadewch i'ch plentyn wybod ei bod hi'n iawn gofyn beth mae gair yn ei feddwl neu ddweud, 'Dydw i ddim yn deall'. Helpwch eich plentyn i chwilio am y gair neu'r rhan o'r frawddeg sydd ddim yn glir.

c. Edrychwch beth yw dealltwriaeth eich plentyn o eiriau allweddol trwy ofyn iddo egluro i chi beth maent yn ei feddwl. Sicrhewch fod eich plentyn yn deall cwestiwn gwaith cartref trwy ofyn iddo ei egluro i chi.

ch. Dangoswch i'ch plentyn sut i ddefnyddio cliwiau a rhannau o eiriau a allai ei helpu i weithio allan beth yw ystyr gair wrth ddarllen.

d. Os oes arnoch chi eisiau targedu geiriau arbennig, dewiswch eiriau 'ar draws y cwricwlwm' mwy haniaethol y mae athrawon yn eu defnyddio (fel y crybwyllid uchod), gan mai hyn fydd yn cael yr effaith fwyaf ar ddeall cyfarwyddiadau'n llwyddiannus yn y dosbarth. Fe allai fod o fudd i siarad â rhywun yn ysgol eich plentyn ynghylch hyn.

dd. Cyfoethogwch y cysylltiadau rhwng gair targed a geiriau eraill trwy feddwl am eiriau perthnasol y mae'r plentyn yn eu gwybod yn barod, sy'n swnio'r un fath, yn edrych yr un fath, sydd yn yr un dosbarth, sydd ag ystyr tebyg neu sydd ag ystyr cyferbyniol.

e. Defnyddiwch strategaethau gweledol fel tynnu llun, delweddau ac ysgrifennu i egluro geiriau targed a'u cysylltu â geiriau eraill.

f. Gall gwneud eich croeseiriau eich hunain fod yn ffordd llawn hwyl o gydweddu cliwiau â gair; ewch i www.puzzlemaker.com

ff. Rhowch enghreifftiau o ffyrdd y gall gair targed gael ei ddefnyddio mewn brawddeg. Ewch ati i ymarfer hyn gyda'ch gilydd gan ei fod yn gwella dealltwriaeth o'r ffordd o ddefnyddio gair yn ystyrlon. Anogwch eich plentyn i feddwl am frawddegau newydd sy'n cynnwys gair targed.

g. Ailadroddwch a dewch yn ôl at ystyron geiriau targed er mwyn iddynt gael eu clywed a'u gweld llawer o weithiau, mewn amrediad o wahanol enghreifftiau, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Crëwch 'eiriadur' o wahanol eiriau y gallwch chi ychwanegu atynt ac edrych beth yw eu hystyr.

ng. Ewch i www.Youtube/rallicampaign i gael ffilm fer o'r enw 'What's that Word?' sy'n amlygu strategaethau sy'n fanteisiol i blant o roi cefnogaeth ar gyfer anhawster wrth alw geiriau cyfarwydd i gof.